

Comisiwn Dylunio Cymru

DISGRIFIAD O'R RÔL

YMGYNGHORYDD DYLUNIO

Oes gennych chi'r sgiliau, y profiad a'r
angerdd i wneud gwahaniaeth i ddyfodol
yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru?
Os felly, rydym yn awyddus i glywed
gennych chi.



DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn chwilio
am unigolyn o safon uchel ar gyfer rôl
Ymgynghorydd Dylunio, i ymuno â'i dîm bychan
yng Nghaerdydd ac i wasanaethu Cymru gyfan.

Teitl:	Ymgynghorydd Dylunio
Cyflogir gan:	Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW Ltd)
Yn atebol i'r:	Prif Weithredwr
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau:	Erbyn 17:00 ddydd Iau 5 Ionawr 2023
Dull cyflwyno:	CV a llythyr eglurhaol dros e-bost at connect@dcfw.org i gyrraedd erbyn y dyddiad cau a nodir. Dylai eich llythyr nodi'n glir pam eich bod eisiau gweithio i ni a pham mae'r rôl hon yn apelio atoch chi.
Dyddiad cyfweiliadau:	Rhoddir gwybod i'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer am ddyddiadau'r cyfweiliad.
Cyfweiliadau i'w cynnal yn:	Comisiwn Dylunio Cymru 4ydd Llawr, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL

D.S.

Rydym yn ceisio cynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb, ond mae'n bosibl y byddant yn cael eu cynnal ar-lein drwy Microsoft TEAMS os nad oes dewis arall boddhaol ar gael.

Gwybodaeth ynghylch Comisiwn Dylunio Cymru

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn hyrwyddo dylunio da ar draws pob sector, a'i weledigaeth yw creu Cymru sy'n lle gwell.

Rydym yn darparu Cefnogaeth i Gleientiaid, Hyfforddiant a Gwasanaethau Adolygu Dyluniadau strategol wedi'u teilwra, a digwyddiadau, seminarau a chyhoeddiadau – llawer ohonynt yn tynnu sylw at faterion allweddol ar gyfer sicrhau ansawdd dylunio a gwerth cyhoeddus yn yr amgylchedd adeiledig ac yn cefnogi polisiau a chanllawiau cynllunio a dylunio cenedlaethol yng Nghymru.

Rydym yn hyrwyddo dylunio trefol, thirlunio a phensaerniaeth o safon uchel yng Nghymru i sicrhau pob rhagoriaeth yn y gwaith o ddylunio a darparu cartrefi, cymdogaethau, adeiladau cyhoeddus a dinesig, seilwaith trafndiaeth ac ynni.

- Ein gweledigaeth yw creu Cymru sy'n lle gwell.
- Rydym yn hyrwyddo dylunio da ac yn cyfleu manteision hynny.
- Rydym yn gweld gwerth mewn bod yn agored, yn dryloyw a pharchu'n gilydd mewn diwylliant lle rhennir gwybodaeth â'n holl randdeiliaid.

Mae'r Comisiwn yn fach, yn hyblyg, ac yn arbenigol. Rydym yn hyrwyddo creu lleoedd a dylunio da ar draws sectorau, gan flaenoriaethu ansawdd yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru ac ansawdd dylunio adeiladau, lleoedd a thir cyhoeddus ar gyfer gwerth cyhoeddus tymor hir.

Drwy ein gwasanaethau ymgynghori, gan gynnwys y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau strategol cenedlaethol, Cefnogaeth i Gleientiaid, Seminarau Hyfforddi a Digwyddiadau, rydym yn ymgysylltu â chydweithwyr ar draws disgyblaethau pensaerniaeth, dylunio trefol a thirlunio, cynllunio, adfywio a thrafnidiaeth sy'n ymwneud â siapio cefn gwlad, dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru.

Rydym yn gweithio ag ymarferwyr, datblygwyr, cleientiaid, cyrff proffesiynol, awdurdodau lleol, a chyrff comisiynu eraill yn y proffesiynau dylunio, cynllunio, adfywio, seilwaith ynni a thrafnidiaeth, gan sicrhau bod ein harbenigedd ar gael ledled Cymru.

Mae ein tîm gweithredol bach yn cael cymorth ychwanegol gan nifer fach o ymgynghorwyr arbenigol a'n gwirfoddolwyr arbenigol a benodir i'n **Panel Adolygu Dyluniadau** sy'n cefnogi'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau cenedlaethol. Mae sgiliau a phrofiad y tîm cyfan yn cwmpasu eiddo masnachol, adfywio, pensaerniaeth, cynaliadwyedd a datgarboneiddio, dylunio trefol a thirlunio, seilwaith ynni gan gynnwys ynni adnewyddadwy ar y tir/oddi ar y tir, yn ogystal â pheirianeg, cynllunio a thrafnidiaeth.

Mae'r Comisiwn yn gwmni cyfyngedig preifat a ymgorfforwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2002 fel is-gwmni sy'n eiddo llwyr. Mae'r Comisiwn yn cael arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei weithgareddau fel y nodir yn ei Amcanion cwmni sydd yn ei Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, ac mewn ymateb i'w fframwaith cyllido blynyddol y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru.

Ein Hamcanion yw:

- Hyrwyddo safonau uchel o ddylunio a phensaerniaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru, drwy hyrwyddo dealltwriaeth well o faterion yn ymwneud â dylunio, a phwysigwydd safonau da wrth wella'r amgylchedd adeiledig ar draws pob sector.
- Hyrwyddo arferion dylunio sy'n gydnaws â Chynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, gan hyrwyddo arferion gorau o ran effeithlonrwydd ynni, gwaredu gwastraff a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Hyrwyddo arferion dylunio sy'n gydnaws â'r safonau uchaf mewn perthynas â chyfle cyfartal a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.
- Rhoi sylw dyledus i hyrwyddo rhagoriaeth mewn datblygiadau o ddydd i ddydd, megis stadau tai ac unedau diwydiannol, yn ogystal â hyrwyddo rhagoriaeth mewn prosiectau mawr eu bri.

Cyfeirir at ein Cadeirydd a'n Bwrdd Cyfarwyddwyr fel Comisiynwyr. Yn ôl y gyfraith, maent yn gyfarwyddwyr anweithredol y cwmni cyfyngedig sef DCFW Ltd, Rhif y Cwmni 04391072, is-gwmni sy'n eiddo llwyr Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r Comisiynwyr yn cael tâl, ac maent yn cael eu penodi drwy broses Penodiadau Cyhoeddus y Gweinidog, a reolir gan Lywodraeth Cymru, yn unol â Phwyllgor Safonau Nolan mewn Bywyd Cyhoeddus. Gweinidogion Cymru sy'n bennaf gyfrifol am benodiadau'r Bwrdd.

Ymgynghorydd Dylunio – Y Swydd

Mae'r swydd hon yn un barhaol amser llawn.

Fel Ymgynghorydd Dylunio, byddwch yn weithiwr proffesiynol credadwy gyda phrofiad yn yr amgylchedd adeiledig, yn ddelfrydol ym maes dylunio trefol, pensaernïaeth a/neu gynllunio. Byddwch yn gallu cyfathrebu ac eiriol yn effeithiol dros bwysigrwydd dylunio da ar gyfer yr amgylchedd adeiledig ar draws sectorau a disgyblaethau ac ymysg y rheini sy'n gwneud penderfyniadau. Bydd gennych chi'r hyder a'r sgiliau cyfathrebu i arwain rhaglenni hyfforddi ac ymgysylltu ar gyfer awdurdodau lleol, y sector preifat a'r trydydd sector, a chynulleidfaoedd amlddisgyblaeth eraill ledled Cymru.

Mae Ymgynghorwyr Dylunio yn chwarae rhan bwysig yn y tîm bychan ymroddedig, gan helpu i lunio, datblygu, hyrwyddo a darparu gwasanaethau, digwyddiadau a hyfforddiant Comisiwn Dylunio Cymru ar draws Cymru.

Byddwch yn cyfrannu arbenigedd sylweddol at Wasanaeth Adolygu Dyluniadau cenedlaethol Comisiwn Dylunio Cymru ynghyd â gwaith ymgynghori a hyrwyddo eraill ym maes dylunio, gan gynnwys ymgysylltu'n gynnar ag awdurdodau lleol, hyrwyddwyr cynlluniau, cleientiaid a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn cael dylanwad cadarnhaol ac ychwanegu gwerth. Fel Ymgynghorydd Dylunio, byddwch yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu, yn llunio ac yn drafftio sylwadau swyddogol y Comisiwn ar ffurf adroddiadau Adolygu Dyluniadau.

Byddwch yn chwarae eich rhan yn y gwaith o ymchwilio a chanfod arferion gorau a thystiolaeth o werth a manteision dylunio da. Bydd hyn yn helpu gyda gwaith eiriolaeth Comisiwn Dylunio Cymru drwy ein seminarau, cyhoeddiadau, cyngor a deunydd cyfeirio ac ar lwyfannau ar-lein Comisiwn Dylunio Cymru. Mae cyfathrebu ac eiriol yn effeithiol dros bwysigrwydd dylunio da; hyrwyddo gwaith Comisiwn Dylunio Cymru, ei agenda creu lleoedd a gwerth dylunio da ar draws pob sector, yn ganolog i'r rôl.

Yn rhinwedd eich swydd fel Ymgynghorydd Dylunio, cewch gyfle i gyfrannu a datblygu syniadau a chynlluniau fel digwyddiadau, ymchwil a chyhoeddiadau sy'n gwella rhaglen Comisiwn Dylunio Cymru, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr i sicrhau bod y syniadau a'r cynlluniau'n cael eu datblygu a'u cyflwyno i'r safon uchaf.

Fel Ymgynghorydd Dylunio, byddwch yn cynnal ac yn gwella cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli ac yn defnyddio eich gwybodaeth a'ch crebwyll i ddatblygu cysylltiadau newydd yn y diwydiannau dylunio a datblygu, ymysg hyrwyddwyr cynlluniau, cleientiaid, Awdurdodau Lleol, sefydliadau proffesiynol a sefydliadau aelodaeth, ac eraill.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn gweithio gydag aelodau'r diwydiant datblygu, Llywodraeth Cymru, awdurdodau cynllunio lleol, darparwyr addysg, cyrff statudol ac anstatudol, ac aelodau o'r cyhoedd. Mae dylunio da sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy ac sy'n cyfrannu at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a ffocws Polisi Cynllunio Cymru sy'n cael ei arwain gan leoedd, yn hanfodol i'r Comisiwn Dylunio. Bydd yr Ymgynghorydd Dylunio yn helpu i ymchwilio, dadansoddi a chynnig cyngor arbenigol ym mhob dogfen ymgynghori sy'n berthnasol i amcanion a rhaglenni polisi cenedlaethol a lleol.

Bydd deiliad y swydd yn meithrin rhwydweithiau sy'n bodoli'n barod a/neu'n sefydlu rhai newydd. Bydd hyn yn cryfhau rôl Comisiwn Dylunio Cymru fel corff cyhoeddus dylanwadol ac arbenigol ac yn cefnogi digwyddiadau rheolaidd a chefnogaeth DPP ar gyfer rhwydwaith eang ac aml-ddisgyblaeth Comisiwn Dylunio Cymru o weithwyr proffesiynol ym maes amgylchedd adeiledig.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn gwasanaethu Cymru gyfan, a bydd disgwyl i'r Ymgynghorydd Dylunio deithio ledled Cymru (a mannau eraill yn ôl yr angen), gan gynnwys aros dros nos, yn ôl yr angen, i gyflawni cyfrifoldebau'r rôl ac anghenion busnes y Comisiwn. Mae patrwm gweithio hybrid yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ochr yn ochr â'r disgwyliad o weithio yn y swyddfa, wyneb yn wyneb ac mewn tîm, i ddiwallu anghenion y busnes.

Fel aelod o dîm y Comisiwn Dylunio, bydd yr Ymgynghorydd Dylunio yn cyfrannu at ein diwylliant proffesiynol, cydweithredol a chreadigol sy'n ffynnu ar barch at ein gilydd. Bydd holl ddyletswyddau'r Ymgynghorydd Dylunio yn cael eu cyflawni drwy ymgynghori'n agos â chydweithwyr a'r Prif Weithredwr.

Cyfrifoldebau a dyletswyddau

Helpu i ddatblygu gwasanaethau Comisiwn Dylunio Cymru a'u darparu yn unol â nodau strategol a chorfforaethol y Comisiwn, gan gyflawni tasgau allweddol fel y'u disgrifir ym mhrif gorff manyleb y swydd.

Bydd yr Ymgynghorydd Dylunio yn helpu i gyflawni Adolygiad Dylunio cenedlaethol Comisiwn Dylunio Cymru a'r gwasanaethau ymgysylltu ac ymgynghori cysylltiedig. Mae bod yn rhan o'r gwasanaeth Adolygu yn cynnwys paratoi a drafftio adroddiadau, llunio a chyflwyno digwyddiadau eiriolaeth, trefnu a hwyluso gweithdai dylunio ymchwiliol a/neu ganolbwyntio ar brosiectau penodol neu, fel arall, helpu i chwalu rhwystrau rhag dylunio da.

Bydd yr Ymgynghorydd Dylunio hefyd yn cefnogi cydweithio agos ag Awdurdodau Lleol yng Nghymru o ran cynllunio ac adfywio, a chyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Mae rôl y Comisiwn o ran gwella ansawdd a chyfrannu at drawsnewid trefi, dinasoedd a phentrefi Cymru yn gadarnhaol, gan ychwanegu gwerth drwy weithgareddau a phrosesau dylunio a chreu lleoedd, yn rhan allweddol o'r swydd hon. Mae hyn yn cynnwys cefnogi a datblygu Partneriaeth Creu Lleoedd Cymru.

Ynghyd ag aelodau eraill o'r tîm, bydd yr Ymgynghorydd Dylunio yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ymchwilio a chyfrannu gwybodaeth a deunydd ysbrydoledig at ddibenion eiriolaeth ac ymgysylltu, ac am rannu drwy ein gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r tasgau gweinyddol cyffredinol sy'n berthnasol i'r swydd yn cynnwys gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a'r tîm i wneud y canlynol:

- Cysylltu, yn ôl yr angen, ag aelodau'r tîm a'r Panel Adolygu Dyluniadau.
- Cysylltu â chyrrff allanol i wella a chefnogi partneriaethau presennol a datblygu rhai newydd.
- Chwarae rhan allweddol yn y gwaith o baratoi cylchlythyr partneriaeth Creu Lleoedd Cymru, yn ogystal â chofrestru a chynnal cysylltiad â llofnodwyr Siarter Creu Lleoedd Cymru. Lle y bo'n briodol, gweithio'n agos â'r Rheolwr Adnoddau a Chyllid i sicrhau, rheoli a rhoi cyfrif am gyllidebau ac arian prosiectau.
- Cynnal cofnodion, dogfennau a systemau adrodd effeithiol ar gyfer defnydd mewnol ac allanol.
- Llunio, hyrwyddo a chynnal digwyddiadau, ymgyrchoedd a gweithgareddau sy'n hyrwyddo dylunio da a chreu lleoedd da, ac sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Comisiwn Dylunio Cymru.
- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd/digwyddiadau Comisiwn Dylunio Cymru a'u mynychu.

Priodoleddau Hanfodol

- Greddf i gyfathrebu da, meithrin perthynas, ac ysgogi eraill ynghyd â'r gallu i weithredu ar eich liwt eich hun a chyfrannu'n weithredol hefyd at gryfder a pherfformiad y tîm.
- Gwybodaeth a phrofiad o ddisgyblaethau dylunio yn yr amgylchedd adeiledig, gan gynnwys pensaernïaeth, dylunio a chynllunio trefol a thirlunio.
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arferion cynllunio, rheoli datblygu ac adfywio awdurdodau lleol yng Nghymru neu mewn mannau eraill.
- Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd datgarboneiddio a datblygu cynaliadwy.
- Dealltwriaeth o'r sector datblygu ac eiddo masnachol.
- Didwylledd a hygredded ym maes dylunio ac amgylchedd adeiledig.
- Sgiliau dadansoddi rhagorol a'r gallu i roi barn graff.
- Y gallu i feddwl a gweithredu'n strategol er mwyn cael dylanwad cadarnhaol a gwerth ychwanegol.
- Ymwybyddiaeth o bolisiâu a strategaethau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru, a pholisiâu a deddfwriaethau perthnasol ar lefel genedlaethol a lleol, ynghyd â dealltwriaeth o'r awydd cryf i wella ansawdd dylunio yn yr amgylchedd adeiledig yn gyffredinol.

Byddwch yn gwbl ymroddedig i hyrwyddo dylunio trefol, pensaernïol a thirlunio o ansawdd uchel.

Profiad a Sgiliau Hanfodol

- Profiad o ddisgyblaethau dylunio amgylchedd adeiledig fel dylunio trefol/pensaerniaeth/tirwedd/datblygu
- Gwybodaeth dda am bolisiau ac arferion awdurdodau lleol a pholisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru
- Sgiliau cyfathrebu arbennig ar lafar ac ar bapur
- Sgiliau trefnu a chyflwyno a sgiliau TG rhagorol
- Effeithlon, llawn cymhelliant ac yn gallu gweithio dan bwysau, gan gefnogi cydweithwyr mewn tîm bach a chael cefnogaeth ganddynt
- Lefel uchel o egni, brwdfrydedd, blaengaredd a hunangymhelliant
- Y gallu i fod yn llysgennad effeithiol ar ran y Comisiwn a'i waith, gan ysgogi eraill a chreu consensws
- Cyfarwydd iawn â chyfrifiaduron/TG a bod yn hunangynhaliol o ran gwaith gweinyddol
- Trwydded yrru gyfredol, lawn

Byddai'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg o gymorth i ddeiliad y swydd, ond nid yw'n hanfodol ar gyfer y swydd.

Mae'r uchod yn ddisgrifiad o'r swydd fel y'i gwelir adeg ysgrifennu hyn, ac fe allai newid yn y dyfodol, mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd, er mwyn adlewyrchu gofynion sy'n newid.

Diwylliant ac Ymddygiad

Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi sefydlu a meithrin diwylliant cadarnhaol, datblygiadol, creadigol a chyd-gyfrifol, ac mae wedi ymrwymo iddo'n llwyr. Mae ein gwerthoedd yn dangos pa fath o sefydliad yr hoffem fod. Rydym yn meithrin diwylliant cadarnhaol, proffesiynol a chreadigol, ac rydym yn gweithio i wella effeithlonrwydd ac ansawdd ein gwasanaethau drwy'r amser. Rydym yn gwerthfawrogi sgiliau a safbwyntiau amrywiol yn ein tîm a'n bwrdd, gan geisio hyrwyddo tegwch, cynhwysiant a chyfle cyfartal ar bob cyfle.

Bydd holl aelodau'r tîm yn gweithredu fel llysgenhadon ar ran y Comisiwn yn eu hymddygiad a'u capasiti proffesiynol dyddiol, ac wrth hyrwyddo gwaith Comisiwn Dylunio Cymru drwy lwyfannau cyhoeddus gan gynnwys siarad cyhoeddus, digwyddiadau, deunydd print, ar-lein a chyfryngau darlledu.

Bydd holl aelodau'r tîm yn cynnal Gweledigaeth, Nodau a Gwerthoedd Comisiwn Dylunio Cymru a'u dangos ar waith, gan fod yn broffesiynol gyda chydweithwyr a dangos parch at ei gilydd.

Bydd holl aelodau'r tîm yn gweithredu yn unol â Fframwaith a Chynlluniau Blynyddol Comisiwn Dylunio Cymru; Codau Ymddygiad ac eitemau eraill sydd yn ei Lawlyfrau Polisiau a Gweithdrefnau, gan ymddwyn bob amser mewn modd sy'n gymesur â chorff atebol sy'n cael ei barchu ac sy'n cael ei ariannu gan y cyhoedd. Mae'n rhaid i holl aelodau'r tîm gadw cyfrinachedd llwyr o ran holl fusnes, data a gwybodaeth Comisiwn Dylunio Cymru, a byddant yn parchu ac yn cadw at hynny.

Prif Delerau ac Amodau:

Teitl:	Ymgynghorydd Dylunio
Statws Contract:	Parhaol, ar yr amod bod cyfnod prawf o bedwar mis yn cael ei gwblhau'n foddhaol
Yn atebol i'r:	Prif Weithredwr
Lleoliad:	Comisiwn Dylunio Cymru 4ydd Llawr, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL ac mewn lleoliadau ledled Cymru, yn ôl yr angen.
Oriau Gwaith:	37 awr yr wythnos. Bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd ynghyd â pharodrwydd i deithio ac aros dros nos, er mwyn diwallu anghenion y busnes.
Gwyliau Blynyddol:	30 diwrnod y flwyddyn ar ben 8 diwrnod o wyliau cyhoeddus a 4 diwrnod yn ôl disgrisiwn, nes y cytunir yn ffurfiol wrth benodi.
Dull Talu:	BACS ar 15fed o bob mis Pythefnos yn ddyledus, pythefnos ymlaen llaw. Caiff ei dalu ar y diwrnod gwaith olaf sydd agosaf at y 15fed o'r mis pan fydd hwnnw ar benwythnos neu ar wyliau cyhoeddus.
Tâl:	£35K, y flwyddyn. Dyfarniadau yn y dyfodol yn unol â pholisi taliadau Comisiwn Dylunio Cymru ac fel y pennir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr.
Cynllun Pensiwn:	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
Polisi Cyfle Cyfartal:	Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi ymrwymo i gynhwysiant, amrywiaeth a chyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ei waith, ac mae'r holl bersonél yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r ymrwymiad hwn a'n Polis.
Cyfnod rhybudd:	Cyflogwr – tri mis Gweithiwr cyflogedig – tri mis

Mae gan Gomisiwn Dylunio Cymru bolisi dim ysmegu llym. Mae rhagor o delerau ac amodau manwl yn y contract cyflogaeth, ac ymhelaethir arnynt yn y Llawlyfr Staff.



DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU